# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2744A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 22

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 28

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam dau o waith asesu strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Bwriad ein gwaith asesu strwythuredig yw helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2021 (cam un) drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Roedd pandemig COVID-19 yn gofyn i gyrff y GIG addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gyflym er mwyn sicrhau y cymerwyd camau amserol i ymateb i'r cynnydd yn y galw brys oherwydd COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2020 drefniadau llywodraethu diwygiedig y Bwrdd Iechyd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau cyfredol a gyflwynir gan COVID-19, gan ddechrau datblygu cynlluniau hefyd i ailgyflwyno ac adfer y gwasanaethau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Felly, cynlluniwyd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2021 yng nghyd-destun yr ymateb cyfredol i'r pandemig, gan sicrhau dull ymarferol addas o helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Ystyriodd cam dau ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2021 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae'r busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn llywio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o waith craffu'r Bwrdd ar y broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol 2021–22 y Bwrdd Iechyd.

5 Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar unrhyw feysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol sy'n cael eu tanategu gan systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, ond mae cyfleoedd o hyd i gryfhau tryloywder busnes y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar waith i gefnogi'r broses o adfer**

**gwasanaethau, ond mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynllun yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd yn cadw goruchwyliaeth gadarn ar gyllid y Bwrdd Iechyd. Nododd y Bwrdd Iechyd wendidau penodol mewn rheolaethau ariannol sy'n ymwneud â chaffael a gwariant ar brosiectau cyfalaf mawr ac mae'n mynd i'r afael â'r rhain. Mae'r pandemig yn parhau i beri risg i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon.**

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i gynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella tryloywder busnes y Bwrdd i'r cyhoedd, er enghraifft, drwy gynyddu amlder cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn ystod y pandemig. Mae lle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i welliant parhaus, yn ogystal ag i ddysgu o'r pandemig. Mae gan y Bwrdd Iechyd gnewyllyn llawn a sefydlog o Aelodau Annibynnol. Bu newidiadau sylweddol i'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli'r newidiadau hyn yn dda drwy symud yn gyflym i wneud penodiadau dros dro i sicrhau parhad busnes, cynnal cydlyniant y Bwrdd, a lleihau'r amharu ar staff a rhanddeiliaid.

8 Mae dull cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gadarn. Mae ganddo gynlluniau clir ar waith, megis y Cynllun Blynyddol, ar gyfer ymateb i'r pandemig parhaus, yn ogystal ag ar gyfer adfer gwasanaethau yn y tymor byr a'r tymor canolig, ac ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer y tymor hwy. Fodd bynnag, mae ei drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynlluniau hyn yn gyffredinol yn parhau i fod yn llai cadarn ac mae angen eu cryfhau fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ymhellach ei ddull rheoli risgiau ac olrhain argymhellion, ac mae ei drefniadau ar gyfer rhoi sicrwydd ar faterion ansawdd a diogelwch wedi gwella.

9 Parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu o fewn ei ddyraniad adnoddau cyfalaf, ond methodd â bodloni'r ddyletswydd i beidio â mynd y tu hwnt i'w ddyraniad refeniw adnoddau dros y cyfnod treigl o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021. Mae'r pandemig wedi amharu'n ddifrifol ar y gwaith o gyflawni arbedion cost, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella hyn yn ystod 2021–22. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu o fewn y rhan fwyaf o'i reolaethau ariannol presennol. Fodd bynnag, mae gwendidau mewn rheolaethau ariannol sy'n ymwneud â chaffael cyfalaf mawr a gwariant a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi arwain at doriadau systematig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymchwilio i'r rhain ac mae'n cymryd camau i gryfhau ei reolaethau a'i drefniadau llywodraethu mewn cysylltiad â chynlluniau cyfalaf a gwariant. Ceir gwaith craffu cadarn ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac fe'i hategir gan adroddiadau ariannol o ansawdd da, ond mae lle i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd yn y maes hwn.

## Argymhellion

10 Nodir yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

**Argymhellion**

**Cryfhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd**

A1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ers ein hadroddiad asesiad strwythuredig yn 2020. Fodd bynnag, mae lle i'r Bwrdd Iechyd gryfhau y tryloywder cyhoeddus ymhellach drwy:

- a. sicrhau bod holl recordiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol ar ôl pob cyfarfod, a sicrhau bod dolenni i gyfarfodydd blaenorol yn parhau i fod yn weithredol;
- b. sicrhau bod recordiadau o gyfarfodydd y Pwyllgor cyhoeddus ar gael ar ei wefan neu y cyhoeddir cofnodion nas cadarnhawyd o gyfarfodydd y Pwyllgor cyn gynted â phosibl wedi hynny;
- c. lanlwytho holl bapurau'r Pwyllgor i wefan y Bwrdd Iechyd yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt;
- ch. diweddaru manylion aelodaeth y Pwyllgorau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn gynted ag y caiff newidiadau eu cymeradwyo;
- d. rhestru'n barhaus y materion sydd i'w trafod yn breifat gan Bwyllgorau ar agenda eu cyfarfodydd cyhoeddus;
- dd. cyfeirio'r cyhoedd i bapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a recordiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn barhaus drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd; ac
- e. sicrhau bod papurau gwrth-dwyll a chaffael yn cael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gan gadw materion sensitif yn unig ar gyfer cyfarfodydd preifat.

**Cryfhau'r gwaith o adrodd a monitro cynlluniau gweithredol**

A2 Mae dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad cynlluniau yn llai cadarn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau monitro ac adrodd ar gyflawniad cyffredinol ei Gynllun Blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol drwy:

- a. sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol;
- b. darparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar y cynnydd o'i gymharu â chyflawni'r cynlluniau hyn fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.

Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Bwrdd a phwyllgorau effeithiol sy'n cael eu tanategu gan systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, ond mae cyfleoedd o hyd i gryfhau ymhellach dryloywder busnes y Bwrdd. Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar waith i gefnogi'r broses o adfer gwasanaethau, mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynllun yn gyffredinol.**

## Cynnal busnes yn effeithiol

12 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i gynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn effeithiol. Mae tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd wedi gwella, ond gellid ei gryfhau ymhellach. Mae'r ymrwymiad i welliant parhaus yn gryf, ac mae newidiadau diweddar i aelodaeth ar lefel y Bwrdd wedi eu rheoli'n dda.**

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar ffurf rithwir. Mae'r defnydd o dechnoleg wedi ei ymwreiddio'n dda, ac mae nifer y materion cysylltedd TG yn parhau i fod yn isel. Mae aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cadw cwrteisi rhithwir ac yn gwneud defnydd da o nodweddion amrywiol y rhaglen ar-lein i gefnogi'r gwaith o gynnal cyfarfodydd yn effeithiol. Er bod pob aelod yn cydnabod manteision cyfarfodydd rhithwir, mae awydd ymhlith rhai ohonynt i ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

14 Mae holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw drwy MS Teams, ac mae recordiadau'n cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd wedi hynny. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o wefan y Bwrdd Iechyd nad oedd dolenni i sawl recordiad yn weithredol, ac nad oedd un recordiad ar gael sawl wythnos ar ôl y cyfarfod[1] (gweler **Argymhelliad 1a**). Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn ffrydio cyfarfodydd y Pwyllgorau'n fyw ar hyn o bryd, ond cânt eu recordio at ddibenion paratoi'r cofnodion. Felly, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried sicrhau bod y recordiadau hyn ar gael ar ei wefan er mwyn gwella tryloywder (gweler **Argymhelliad 1b**).

[1] Nid oedd recordiad cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 ar gael ar adeg ein hadolygiad ddiwedd mis Tachwedd 2021.

15 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i gyhoeddi agendâu a phapurau ar ei wefan cyn cyfarfodydd yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt – deg diwrnod cyn cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a saith diwrnod cyn cyfarfodydd y Pwyllgorau. Mae cydymffurfio â'r safonau hyn wedi parhau i fod yn dda, gyda nifer fach o doriadau yn unig yn ymwneud yn bennaf â'r Pwyllgor Cyllid[2], a'r Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch[3] (gweler **Argymhelliad 1c**). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyhoeddi aelodaeth, cynllun gwaith a chylch gorchwyl pob Pwyllgor ar ei wefan, ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru manylion aelodaeth rhai Pwyllgorau i adlewyrchu'r newidiadau aelodaeth y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2021 (gweler **Argymhelliad 1d**).

16 Mae cofnodion nas cadarnhawyd o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd pan fyddant yn cael eu cynnwys ym mhapurau'r cyfarfod nesaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cyhoeddi cofnodion nas cadarnhawyd ychydig ddyddiau ar ôl pob cyfarfod Pwyllgor i wella tryloywder fel dewis arall yn lle ffrydio cyfarfodydd yn fyw neu sicrhau bod recordiadau ar gael ar ei wefan (gweler **Argymhelliad 1b**). Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â phryder a amlygwyd yn Arolwg Effeithiolrwydd y Bwrdd 2020–21 nad yw cofnodion nas cadarnhawyd ar gyfer cyfarfodydd penodol yn cael eu dosbarthu i'r aelodau mewn modd amserol. Er bod cofnodion a gadarnhawyd yn cael eu cyhoeddi ar wahân ar wefan y Bwrdd Iechyd, canfu ein hadolygiad fod sawl set nad oedd ar gael.

17 Gwnaethom argymell yn ein hasesiad strwythuredig y llynedd y dylai'r Bwrdd gymryd camau i wella tryloywder cyhoeddus yn ystod y pandemig (gweler **Arddangosyn 2, Asesiad Strwythuredig 2020 Argymhelliad 1**). Ym mis Tachwedd 2020, cytunodd y Bwrdd i gwrdd yn gyhoeddus yn amlach drwy gynnal 90 munud cyntaf ei Ddatblygiad Bwrdd bob deufis yn gyhoeddus i ganolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19. Parhaodd y Bwrdd â'r trefniad hwn tan fis Mehefin 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi hysbysiad ar ei wefan sy'n esbonio sut y gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a chyflwyno cwestiynau ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae lle i hybu'r cyfleoedd hyn yn well ac i gyfeirio'r cyhoedd i bapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a recordiadau o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd (gweler **Argymhelliad 1f**).

18 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ag eiriolwyr cleifion o'r Cyngor Iechyd Cymuned, ac mae cynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned yn disgrifio'r trefniadau cyfathrebu fel rhai cadarn. Mae cynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn mynd i gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a chyfarfodydd

[2] Canfu ein hadolygiad o wefan y Bwrdd Iechyd ddiwedd mis Tachwedd 2021 nad oedd papurau'r Pwyllgor Cyllid 25 Awst 2021, 29 Medi 2021 na 27 Hydref 2021 ar gael.

[3] Tynnodd Arolwg Effeithiolrwydd y Bwrdd 2020–21 sylw at yr angen i wella amseroldeb papurau a ddosberthir ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

perthnasol y Pwyllgorau i ddarparu safbwyntiau ar ddatblygiadau strategol, newidiadau i wasanaethau, a gallu'r cyhoedd i gael gafael ar fusnes a gwasanaethau y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 2: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig 2020 Argymhelliad 1**<br>Gan gydnabod yr heriau niferus a wynebodd y Bwrdd Iechyd yn ystod y brig cyntaf o achosion COVID-19, dylai'r Bwrdd fyfyrio ar ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cryfhau llywodraethu yn y dyfodol yn gyffredinol ac os bydd ail frig o achosion COVID-19. Wrth fyfyrio ar ei brofiadau, dylai'r Bwrdd ganolbwyntio'n benodol ar:<br>a. ystyried yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd cystal, a nodi'r hyn y byddai'n ei wneud yn wahanol pe byddai ail frig o achosion COVID-19;<br>b. cadarnhau pa ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig y mae'n dymuno eu cadw yn y dyfodol;<br>c. cefnogi datblygiad y cnewyllyn cyfan o Aelodau Annibynnol yn ogystal â gwella'u swyddogaeth a'u cyfraniad; a<br>ch. gwella adroddiadau a thryloywder y Bwrdd. | **Cwblhawyd**<br><br>Bu'r Bwrdd yn myfyrio ar ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y don gyntaf ac adolygodd hefyd ganfyddiadau ein gwaith asesu strwythuredig yn ogystal â chanfyddiadau'r archwiliadau a wnaed gan Archwilwyr Mewnol a KPMG.<br><br>Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwyodd y Bwrdd nifer o welliannau i'w drefniadau llywodraethu COVID-19 a nodir yn yr adroddiad hwn (gweler **paragraffau 17**, **33**, a **38**). |

## Trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau

19 Y llynedd, disgrifiodd ein hasesiad strwythuredig y trefniadau Bwrdd a Phwyllgorau symlach a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2020 i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ystwyth a chaniatáu pwyslais ar faterion sy'n hanfodol i fusnes yn ystod ton gyntaf y pandemig. Erbyn hydref 2020, roedd pob Pwyllgor wedi ei adfer a pharhaodd pob un i gyfarfod yn ystod ail don y pandemig.

20 Nid yw strwythur Pwyllgor y Bwrdd Iechyd wedi newid i raddau helaeth. Fodd bynnag, sefydlwyd Pwyllgor newydd, Pwyllgor Llunio Ysbytai Ein Dyfodol, ym mis

Mawrth 2021 i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen ysbytai y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol[4]. Mae gan bob Pwyllgor gylch gorchwyl a chynlluniau gwaith clir a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2021. Cafodd aelodaeth y Pwyllgorau ei hadolygu a'i hadnewyddu ym mis Gorffennaf 2021 i adlewyrchu penodiad tri Aelod Annibynnol[5] newydd ac i gryfhau cadernid rhai Pwyllgorau drwy gynyddu eu haelodaeth, megis y Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd.

21 Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod agendâu wedi eu strwythuro i ddarparu pwyslais ac i alluogi gwaith craffu pan fo'i angen fwyaf. Eitemau i'w hadolygu a sicrwydd sydd ar frig yr agenda, wedyn ceir eitemau i'w cymeradwyo a'u cadarnhau, ac yn olaf ceir eitemau i'w nodi ac er gwybodaeth. Er bod dull y Bwrdd Iechyd o bennu agenda yn effeithiol ar y cyfan, mynegwyd pryderon drwy Arolwg Effeithiolrwydd y Bwrdd 2020–21 ynghylch hyd agendâu y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn arbennig. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn a helpu i reoli amser a lefelau egni ym mhob cyfarfod, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried:

- dyrannu amser penodol ar gyfer pob eitem sydd ar yr agenda;
- mabwysiadu'r defnydd o agendâu cydsyniad[6] ar gyfer eitemau a gyflwynir i'w nodi ac er gwybodaeth yn unig (megis cofnodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau);
- cyhoeddi papurau atodol sy'n darparu gwybodaeth gefndir ar wahân.

22 Yn gyffredinol, cedwir cyn lleied o eitemau â phosibl i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau eu trafod yn breifat. Er bod rhestr o'r eitemau sydd i'w trafod yn breifat gan y Bwrdd yn cael ei chyhoeddi ar agenda cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr un peth ar gyfer yr eitemau y mae'r Pwyllgorau'n eu trafod yn breifat er mwyn gwella tryloywder (gweler **Argymhelliad 1e**).

23 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau fod cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda i gefnogi trafodaethau â phwyslais ar faterion allweddol ac i alluogi pawb sy'n bresennol i gyfrannu. Mewn cyfarfodydd, mae cyfraniadau gan Aelodau Annibynnol yn gytbwys, yn gefnogol ac yn briodol heriol pan fo angen.

24 Mae cofnodion y cyfarfodydd a baratoir gan aelodau'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gynhwysfawr ac yn darparu cofnod da o'r materion allweddol a

[4] Mae'r rhaglen yn cynnwys y tri phrosiect craidd cyfansoddol – Prosiect 1: Trawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â model a gweledigaeth glinigol newydd; Prosiect 2: Ailddatblygu seilwaith ysbytai ar safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau; a Phrosiect 3: Datblygu Eco-system Gwyddorau Iechyd a Bywyd i gefnogi arloesedd cydweithredol, ymchwil a datblygiad.

[5] Mae Is-gadeirydd newydd, Aelod Annibynnol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd, ac Aelod Annibynnol Undebau Llafur newydd wedi ymuno â'r Bwrdd yn ystod 2021.

[6] Agenda cydsyniad yw techneg ar gyfer mynd i'r afael â nifer o faterion a'u cymeradwyo mewn un eitem ar yr agenda, megis adroddiadau, cofnodion, ac eitemau eraill nad oes angen eu trafod.

drafodwyd a'r penderfyniadau a wnaed. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraff 16**, mae lle i sicrhau bod cofnodion nas cadarnhawyd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau mewn modd amserol.

25 Er gwaethaf heriau staffio yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi parhau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, a werthfawrogir gan Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

**Arddangosyn 3: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig 2019 Argymhelliad 1**<br>Gwelsom le i adolygu amseriad ac amlder rhai cyfarfodydd pwyllgor, er mwyn cefnogi aelodau i graffu'n amlach ar yr wybodaeth gyfredol. Bydd adolygu'r amseriad hefyd yn caniatáu'r presenoldeb mwyaf posibl mewn cyfarfodydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. adolygu amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio er mwyn cau'r bwlch rhwng cyfarfod mis Mai a chyfarfod mis Medi; ac<br>b. adolygu capasiti ac amseriad cyfarfodydd pwyllgorau yr aelodau annibynnol pan nad yw aelodau annibynnol yn bresennol yn aml. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cwrdd yn amlach, ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Mehefin a mis Gorffennaf bob blwyddyn bellach.<br>Mae aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi cynyddu o dri i bedwar Aelod Annibynnol. Mae hyn wedi cryfhau capasiti a chadernid y Pwyllgor. |

## Gwybodaeth y Bwrdd a'r pwyllgorau

26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall o ansawdd da i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.

27 Mae adroddiadau ategol yn nodi diben papurau'n glir ac yn cynnwys canlyniadau asesiadau effaith ar iechyd a chydraddoldeb perthnasol. Mae adroddiadau ategol hefyd yn darparu cysylltiadau ag amcanion y Bwrdd Iechyd a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau adroddiadau ategol drwy:

- gynnwys adran ychwanegol sy'n amlinellu llwybr cymeradwyo neu graffu yr adroddiad (os yw wedi ei drafod mewn mannau eraill o'r blaen);

- gwella'r adran asesiadau a risgiau i sicrhau bod yr effeithiau a'r goblygiadau ansawdd a diogelwch, cyfreithiol, ariannol, gweithlu ac economaidd-gymdeithasol perthnasol yn cael eu mynegi'n well;
- cyfyngu'r adran statws i un opsiwn yn unig er mwyn darparu mwy o eglurder ar ddiben cyffredinol yr adroddiad (er sicrwydd, i'w gymeradwyo, i'w drafod, neu er gwybodaeth).

28 Er bod hyd mwyafrif y papurau yn briodol, dywedodd Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol wrthym fod lle i grynhoi gwybodaeth ymhellach er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y materion allweddol y mae angen sylw'r Bwrdd a/neu ei Bwyllgorau arnynt. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd y dylid lleihau'r wybodaeth gefndir gymaint â phosibl neu ei chyhoeddi fel gwybodaeth atodol os oes angen. Felly, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried darparu hyfforddiant neu ganllawiau ar ysgrifennu adroddiadau i'r aelodau o staff sy'n llunio adroddiadau ac yn eu cyflwyno i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn rheolaidd.

29 Pan ddarperir adroddiadau llafar mewn cyfarfodydd, mae'r cofnodion yn rhoi crynodeb manwl o'r prif bwyntiau a gwmpaswyd a thrafodaethau dilynol y Bwrdd neu'r Pwyllgor.

30 Mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn ac ystyried adroddiadau ar y prif bwyntiau a baratoir gan Gadeiryddion y Pwyllgorau. Oherwydd bod adroddiadau ar y prif bwyntiau yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor yn aml, mae perygl y gallai'r cyhoedd eu hystyried yn adroddiadau sy'n dyblygu'r un wybodaeth. Hefyd, mae adroddiadau ar y prif bwyntiau yn ffynhonnell allweddol o sicrwydd i'r Bwrdd. O ganlyniad i hynny, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhoi'r adroddiadau ar y prif bwyntiau o dan adran sicrwydd yr agenda i'w gwahanu oddi wrth gofnodion cyfarfodydd blaenorol ac i sicrhau bod y Bwrdd yn eu hystyried yn briodol.

31 Mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn ac ystyried adroddiadau perfformiad symlach yn gyhoeddus, sy'n cwmpasu perfformiad ariannol a gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi parhau i dderbyn ac ystyried yn gyhoeddus adroddiadau ar wahân ar ansawdd, diogelwch a phrofiadau cleifion. Cyn mis Tachwedd 2021, dim ond i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni y cyflwynwyd gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol y gweithlu ar gyfer gwaith craffu. Er bod yr adroddiadau hyn yn rhoi trosolwg da o berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag ystod o wahanol ddangosyddion, nid ydynt yn darparu unrhyw wybodaeth am y camau a gymerir i gynnal neu wella'r perfformiad.

32 Ym mis Mai 2021, cytunodd y Bwrdd i fabwysiadu dull mwy strategol ac integredig o reoli perfformiad, drwy oruchwylio'r gwaith o ddatblygu cyfres y cytunwyd arni o ddangosyddion allweddol ar draws pob un o'r prif feysydd busnes. Mae'r gyfres o ddangosyddion wedi eu cynnwys mewn un adroddiad integredig fel y gall y Bwrdd graffu arno. O dan y dull hwn, byddai swyddogaeth y Pwyllgorau'n cael ei chryfhau i graffu'n fanylach ar berfformiad yn eu meysydd busnes er mwyn darparu mwy o sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi dechrau derbyn ac ystyried yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn gyhoeddus ers mis Tachwedd 2021. Er bod hwn yn

ddatblygiad cadarnhaol, mae lle i wella'r adroddiad drwy alinio'r dangosyddion â'r pedwar niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19[7], yn ogystal â rhoi sicrwydd cryfach i'r Bwrdd ar y camau a gymerir i gynnal neu wella perfformiad.

33 Gwnaethom argymell yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020 y dylai'r Bwrdd gymryd camau i gynyddu adroddiadau cyhoeddus ar yr holl faterion perthnasol sy'n ymwneud â COVID-19 yn ystod y pandemig (gweler **Arddangosyn 2, Asesiad Strwythuredig 2020 Argymhelliad 1**). Ym mis Tachwedd 2021, cytunodd y Bwrdd i dderbyn adroddiad ym mhob cyfarfod cyhoeddus, sef Adroddiad i roi Diweddariad ar y Coronafeirws, a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar effaith COVID-19 ar feysydd busnes allweddol gan gynnwys ansawdd gwasanaethau a diogelwch cleifion; y gweithlu (gan gynnwys llesiant a diogelwch y staff); llywodraethu; iechyd y cyhoedd; a'r fframwaith gweithredol. Mae'r adroddiad, sydd wedi ei ystyried ym mhob un o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ers mis Tachwedd 2020, wedi sicrhau mwy o dryloywder a gwell adroddiadau ar rai materion nad oeddent yn cael eu cofnodi'n gyhoeddus yn ddigonol yn ystod y don gyntaf, megis llesiant staff.

**Arddangosyn 4: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig 2019 Argymhelliad 2**<br>Canfuom fod y broses monitro perfformiad ar lefel weithredol yn gadarn, ond bod angen gwella rhywfaint o'r wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn ailddechrau ei adolygiad o'r fframwaith perfformiad, dylid ei ymestyn i gynnwys:<br>a. monitro cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig fesul chwarter ac adrodd ar y sefyllfa gyfan i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Bwrdd. Rydym eisoes wedi awgrymu cyflwyno i'r pwyllgor fersiwn gryno o'r adroddiadau cynnydd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd ar gael mewn | **Cwblhawyd**<br>a. Disodlwyd gan Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam 2) Argymhelliad 2b.<br>b. Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yn cael gwybodaeth fanwl am berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â dangosyddion perfformiad gweithredol a gweithlu allweddol, a grynhoir i'r Bwrdd yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig.<br>c. Ym mis Mai 2021, cytunodd y Bwrdd i fabwysiadu dull mwy strategol ac integredig o reoli perfformiad, drwy oruchwylio'r gwaith o ddatblygu cyfres y cytunwyd arni o ddangosyddion |

[7] Y pedwar niwed yw – (i) niwed o COVID-19 ei hun; (ii) niwed oherwydd bod system GIG a gofal cymdeithasol wedi ei llethu; (iii) niwed oherwydd lleihad mewn gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau COVID-19; a (iv) niwed o weithredoedd cymdeithasol ehangach / cyfyngiadau symud.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| adolygiadau o berfformiad byrddau clinigol.<br>b. sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yn cael yr un wybodaeth am berfformiad, neu wybodaeth sy'n fanylach na'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei chael.<br>c. adolygu fformat y dangosfwrdd perfformiad a adroddir i'r Bwrdd ar hyn o bryd, a sicrhau ei fod yn ddarllenadwy. | allweddol ar draws pob un o'r prif feysydd busnes. Cynhwysir y gyfres o ddangosyddion yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig fel y gall y Bwrdd graffu arni (gweler **paragraff 32**). |
| **Asesiad Strwythuredig 2018 Argymhelliad 4**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei fframwaith rheoli perfformiad i adlewyrchu'r newidiadau sefydliadol sydd wedi digwydd ers 2013. | **Cwblhawyd**<br><br>Cyflwynwyd dogfen fframwaith rheoli perfformiad wedi'i diweddaru a chytunodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni arni ym mis Medi 2020. |

## Ymrwymiad y Bwrdd i welliant parhaus

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i welliant parhaus ac mae'n cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Ym mis Mai 2021, adolygodd y Bwrdd a'i Bwyllgorau eu heffeithiolrwydd yn rhan o'r broses o baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Roedd canfyddiadau cyffredinol Arolwg Effeithiolrwydd y Bwrdd 2020–21 yn gadarnhaol, ond nodwyd bod nifer bach o feysydd yr oedd angen eu gwella. Mae Cynllun Gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella hyn, ac mae'n cael ei fonitro gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnal asesiad o'i gydymffurfedd â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Llywodraeth Ganolog ac ni nododd unrhyw wyro oddi wrth y cod yn ystod y flwyddyn.

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi datblygiad Aelodau Annibynnol newydd a chyfredol. Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen gynefino gynhwysfawr ar waith ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd, a llwyddodd i reoli'r broses o gynefino tri Aelod Annibynnol newydd o bell. Mae'r Cadeirydd wedi adolygu perfformiad yr holl Aelodau Annibynnol ac wedi cymryd rhan yn weithredol yn y broses o bennu eu hamcanion eu hunain ar gyfer 2021–22. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i ddiwallu anghenion datblygiad Aelodau Annibynnol fel y'u nodir trwy'r broses arfarnu perfformiad. Mae'r Cadeirydd hefyd yn effeithiol wrth rannu gwybodaeth ag Aelodau Annibynnol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, ac mae Aelodau Annibynnol yn parhau i ddefnyddio'r

grŵp WhatsApp a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig fel y gallant gefnogi ei gilydd yn rheolaidd.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud defnydd effeithiol o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth Aelodau Annibynnol am bynciau a materion penodol ar draws y system gofal iechyd yn ogystal â chefnogi twf a chydlyniant y Bwrdd yn fwy cyffredinol.

37 Ar adeg ein hadolygiad, roedd holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau eu datganiadau o fuddiant, rhoddion, lletygarwch a nawdd. Er y gellir gweld datganiadau aelodau'r Bwrdd ar wefan y Bwrdd Iechyd, cânt eu cyhoeddi mewn un ddogfen sydd hefyd yn rhestru datganiadau staff y Bwrdd Iechyd. Felly, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried cyhoeddi datganiadau aelodau'r Bwrdd ar wahân er mwyn sicrhau tryloywder priodol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar gyfres o newidiadau i wella cydymffurfedd â'i bolisi buddiant, rhoddion, lletygarwch a nawdd yn fwy cyffredinol, ac mae'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

## Sicrhau bod y cynllun sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

38 Fel y disgrifiwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, penderfynodd y Bwrdd Iechyd beidio â defnyddio strwythur Gorchymyn a Rheoli Aur traddodiadol o'r brig i lawr i reoli a chydlynu ei ymateb i'r pandemig. Yn hytrach, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Strwythur Gorchymyn COVID-19 ym mis Mawrth 2020 i'w alluogi i fabwysiadu dull mwy cynaliadwy, cynhwysol, hyblyg ac o'r gwaelod i fyny. Adolygwyd y trefniadau hyn yn ffurfiol yn hydref 2020 a chymeradwyodd y Bwrdd nifer o newidiadau ym mis Tachwedd 2020, gan gynnwys ehangu aelodaeth graidd Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd i gynnwys yr holl Aelodau Annibynnol (gweler **Arddangosyn 2, Asesiad Strwythuredig 2020 Argymhelliad 1**).

39 Dechreuodd y Bwrdd Iechyd raglen ddysgu fawr yn dilyn y don gyntaf a arweiniodd at gyhoeddi Adroddiad Darganfod COVID-19 yn hydref 2020. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn ymwneud ag adolygu gwersi mewn cysylltiad â llywodraethu yn ystod y pandemig drwy Grŵp Cadeiryddion Cymru gyfan a Rhwydwaith Ysgrifenyddion y Bwrdd. Fodd bynnag, mae lle i'r Bwrdd Iechyd amlygu'n well sut y mae wedi ymgorffori'r gwersi hyn a ffyrdd newydd o weithio.

40 Mae gan y Bwrdd Iechyd gnewyllyn llawn a sefydlog o Aelodau Annibynnol, ac mae aelodaeth y Bwrdd wedi ei hehangu i gynnwys y Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd. Fodd bynnag, bu sawl newid ar lefel y Cyfarwyddwyr Gweithredol:

- dechreuodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid newydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant newydd eu swyddi yn y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth a mis Mai 2021 yn y drefn honno;
- gadawodd y Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2021; ac

- mae'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi cyhoeddi eu bod yn gadael eu swyddi ym mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022 yn y drefn honno.

Symudodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i benodi Prif Swyddog Gweithredol dros dro, Cyfarwyddwr Meddygol dros dro, a Phrif Swyddog Gweithredu dros dro er mwyn sicrhau parhad busnes, cynnal cydlyniant y Bwrdd, a lleihau gymaint â phosibl yr amharu ar staff a rhanddeiliaid. Cymeradwywyd y penodiadau dros dro hyn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol newydd yn dechrau ei swydd yn y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2022 a gwneir penodiadau parhaol i swyddi'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Prif Swyddog Gweithredu yn fuan wedi hynny.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[8]

41 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar waith ar gyfer adfer, ond bod yr amserlenni cyflawni yn dibynnu ar lawer o ffactorau sydd y tu hwnt i'w reolaeth uniongyrchol. Er bod dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio yn parhau i fod yn gadarn, mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynlluniau.**

42 Mae adfer ar ôl pandemig COVID-19 yn her sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r pandemig, ochr yn ochr â phwysau gofal heb ei drefnu sylweddol, yn parhau i effeithio ar gapasiti'r gwasanaethau sydd ar gael a chynhyrchiant gwasanaethau ehangach. Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Blynyddol 2021–22 (y Cynllun Blynyddol), sy'n cynnwys atodiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar ofal wedi'i gynllunio, sy'n nodi sut y caiff sicrheir cymaint â phosibl o weithgarwch a sut y caiff ei ailgynllunio i gefnogi'r broses adfer.

43 Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Blynyddol drafft yn ei gyfarfod preifat ym mis Mawrth 2021 yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Blynyddol terfynol, ynghyd â'r atodiad ar ofal wedi'i gynllunio, yn ei gyfarfod cyhoeddus ym mis Mehefin 2021. Arsylwyd gwaith craffu da gan y Bwrdd ar fersiynau drafft a therfynol y Cynllun Blynyddol, gydag Aelodau Annibynnol yn gofyn am sicrwydd bod y cynllun yn realistig ac yn gyflawnadwy. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yn gallu craffu ar y Cynllun Blynyddol cyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo oherwydd amserlenni tynn.

[8] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Cafodd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020–2023 ei gohirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, er mwyn caniatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, gofynnwyd i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020–21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021–22 erbyn 31 Mawrth 2021. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig cam un 2021 drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd.

44 Mae’r Cynllun Blynyddol yn fanwl, wedi ei strwythuro’n dda, ac yn gwneud defnydd da o arwyddion gweledol i gynorthwyo’r darllenydd i ddeall sut y mae pob adran yn ymwneud â blaenoriaethau perthnasol y Bwrdd Iechyd neu Weinidogol. Mae’r Cynllun Blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau’r Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad ag ymateb i’r pandemig parhaus (gan gynnwys y pedwar niwed sy’n gysylltiedig â COVID-19), yn ogystal â’i flaenoriaethau ar gyfer adfer gwasanaethau yn y tymor byr a’r tymor canolig, ac ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer y tymor hwy. Mae’n mynd i’r afael â’r holl flaenoriaethau Gweinidogol a nodir yn Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021–22 ac mae’n disgrifio’r galluogwyr sydd eu hangen i gefnogi’r broses o’i gweithredu.

45 Er bod y Cynllun Blynyddol yn cynnwys nifer o gamau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, a mesurau, nid ydynt yn cael eu crynhoi na’u cyflwyno mewn ffordd a fyddai’n caniatáu i gynnydd gael ei fonitro a’i adrodd yn effeithiol. Roedd hyn hefyd yn wir am y cynlluniau chwarterol a luniwyd yn ystod 2020–21 fel y nodir yn ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig Cam 12021. Felly, dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Cynlluniau Blynyddol neu Gynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol yn cynnwys crynodebau clir o’r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol (gweler **Argymhelliad 2a**).

46 Roedd sylwadau Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Blynyddol drafft yn gadarnhaol i raddau helaeth, a thynnodd sylw at gyfleoedd i’r Bwrdd Iechyd ei gryfhau ymhellach drwy roi sicrwydd ar alinio â blaenoriaethau/rhaglenni cenedlaethol; darparu rhagor o sicrwydd ar yr hyn y mae angen ei gyflawni, yn enwedig gwasanaethau hanfodol; mynd i’r afael ag anableddau dysgu, datgarboneiddio a mentrau cynllunio rhanbarthol newydd; ac amlinellu sut y bydd gwasanaethau sy’n effeithio ar boblogaeth ehangach y de-ddwyrain a gwasanaethau trydyddol yn cael eu darparu. Roedd yr adroddiad ategol a oedd yn cyd-fynd â fersiwn derfynol y Cynllun Blynyddol a gyflwynwyd i gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ym mis Mehefin 2021 yn nodi’n glir y camau a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i fynd i’r afael â sylwadau Llywodraeth Cymru.

47 Mae atodiad y Cynllun Blynyddol yn canolbwyntio’n benodol ar ofal wedi’i gynllunio ac mae’n cwmpasu ailgynllunio gweithredol ac adfer y system gyfan ar draws pum maes craidd Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd Meddwl, Gofal Wedi’i Gynllunio, Gofal Heb ei Drefnu, a Diagnosteg. Mae’r atodiad yn rhoi trosolwg da o’r cynlluniau a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd i adfer a gwella mynediad, trawsnewid llwybrau, a lleihau gymaint â phosibl y niwed ym mhob un o’r meysydd hyn yn unol â’r egwyddorion o gael ei arwain yn glinigol, o gael ei lywio gan ddata, sy’n seiliedig ar risgiau, ac sy’n barod o ran COVID-19.

48 Mae’r atodiad yn cydnabod y ffactorau a allai effeithio ar yr amserlenni cyflawni y mae llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys:

- cyflymder y broses o gymeradwyo achosion busnes cyfalaf, adeiladu cyfleusterau newydd ac ailwampio cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli;

- y gallu i recriwtio a hyfforddi aelodau newydd o staff;
- y gyfradd pan ellir lleihau a dileu mesurau atal a rheoli heintiau.

49 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu rhai o'i gynlluniau, mae perygl na fydd yn gallu sicrhau'r holl adnoddau ariannol sydd eu hangen arno i gyflawni a chynnal yr holl newidiadau a nodir yn yr atodiad.

50 Amlygodd ein hadroddiad strwythuredig Cam 1 2021 gyfleoedd i gryfhau'r trefniadau monitro ac adrodd ar gyflawni cynlluniau gweithredol yn gyffredinol fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn. Hyd yma, nid yw'r adroddiadau perfformiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn darparu unrhyw wybodaeth am y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Blynyddol. Fodd bynnag, mae'r adrodd ychydig yn well ar yr atodiad, gydag Adroddiad Fflach ar y portffolio adfer ac ailgynllunio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ym mis Tachwedd 2021 yn rhan o ddiweddariad ehangach ar raglenni strategol y Bwrdd Iechyd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i ddarparu rhagor o wybodaeth ar y cynnydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni o'i gymharu â chyflawni'r Cynllun Blynyddol a'r atodiad fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn (gweler **Argymhelliad 2b**).

## Systemau sicrwydd

51 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ymhellach ei drefniadau rheoli risgiau a'i ddull o olrhain argymhellion. Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi sicrwydd ar faterion ansawdd a diogelwch wedi gwella a disgwylir iddynt wella ymhellach ar ôl mabwysiadu Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad newydd.**

### Rheoli risgiau

52 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risgiau sy'n parhau i aeddfedu.**

53 Fel y disgrifiwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, sefydlodd a chynhaliodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd COVID-19 ar wahân ochr yn ochr â'i Fframwaith Sicrwydd Bwrdd safonol i nodi, rheoli a lliniaru'r risgiau strategol sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd y Bwrdd i uno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd safonol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd COVID-19 yn Fframwaith Sicrwydd Bwrdd unedig. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd unedig yn nodi'n glir y prif risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd fel y'u nodir yn ei strategaeth ddeng mlynedd, Llunio ein Lles i'r Dyfodol. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn nodi'n glir y rheolaethau a'r sicrwydd presennol sydd ar waith, yn ogystal â'r camau i'w cymryd i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd pan fo hynny'n berthnasol. Cafodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei wella ym mis Medi 2021 i adlewyrchu parodrwydd y Bwrdd

Iechyd i dderbyn risg yn ogystal ag alinio sicrwydd â'r tair llinell amddiffyn[9] a nodir yn y Strategaeth Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel dogfen fyw. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan yr Arweinwyr Gweithredol perthnasol i adlewyrchu prif risgiau parhaus, newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â nodi'r cynnydd wrth roi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd. Cyflwynir Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Bwrdd yn gyhoeddus bob deufis, i graffu arno ac i'w gymeradwyo, ac mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn adolygu'n rheolaidd y prif risgiau a ddyrennir iddynt er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd. Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd sy'n gyfrifol am oruchwylio ac adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar ran y Bwrdd.

55 Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac mae'n nodi risgiau gweithredol dirfawr sydd wedi cael sgôr o 20 neu fwy[10]. Ers mis Ionawr 2021, cyflwynir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'r Bwrdd yn gyhoeddus bob deufis i graffu arni, yn dilyn adolygiad manwl ac ystyriaeth gan Swyddog Gweithredol Rheoli a Bwrdd Rheoli'r System Iechyd y Bwrdd Iechyd. Ym mis Medi 2021, roedd 11 o risgiau gweithredol dirfawr a chanddynt sgôr o 20 neu fwy a oedd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am fonitro a chynnal y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn adolygu'r risgiau gweithredol dirfawr perthnasol fel mater o drefn er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd i'r Bwrdd.

56 Fel y disgrifiwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Ganolfannau Gorchymyn Lleol i reoli ei ymateb gweithredol i'r pandemig. Yn rhan o'r trefniad hwn, rheolai pob Canolfan Gorchymyn Lleol eu Cofrestrau Risgiau eu hunain a oedd yn cyd-fynd â Chofrestrau Risgiau Byrddau Clinigol ac yn cael eu bwydo i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ôl y gofyn. Caewyd Cofrestrau Risgiau y Ganolfan Gorchymyn Lleol yn ystod 2021 pan adferwyd y trefniadau busnes arferol. Mae risgiau gweithredol sy'n ymwneud â COVID-19 bellach yn cael eu nodi a'u rheoli drwy strwythurau Bwrdd Clinigol a Chyfarwyddiaeth Gorfforaethol y Bwrdd Iechyd.

57 Mae'r risgiau a nodir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd yn llywio parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg Iechyd. Ym mis

[9] Sicrwydd lefel y rheolwyr yw'r llinell amddiffyn gyntaf, sicrwydd lefel y Bwrdd a'r Pwyllgorau yw'r ail linell amddiffyn, a sicrwydd lefel annibynnol yw'r drydedd linell amddiffyn.

[10] Cyn mis Gorffennaf 2021, roedd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys risgiau dirfawr a chanddynt sgôr o 15 neu fwy. Fodd bynnag, penderfynwyd cynnwys risgiau a chanddynt sgôr o 20 neu fwy yn unig oherwydd hyder cynyddol y Bwrdd Iechyd ym mhriodoldeb sgorau risg a baratowyd gan Fyrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol.

Hydref 2020, cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg y Sefydliad Llywodraethu Da i nodi ei barodrwydd i dderbyn risg fel 'gofalus' (yr opsiwn a ffefrir o ran opsiynau cyflenwi diogel sydd â lefel isel o risg gynhenid ac a allai fod â photensial cyfyngedig yn unig o arwain at wobr), gan symud tuag at 'ceisio' (yn awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes a allai fod yn uwch, er gwaethaf risg gynhenid uwch). Ym mis Rhagfyr 2020, cytunodd y Bwrdd i fireinio'r dull hwn ymhellach drwy ychwanegu mwy o iselfennau at y Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg, fel y gellir cymhwyso yn well y parodrwydd i dderbyn risg ar lefel weithredol. Cyhoeddwyd Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2021 yn rhan o'r Strategaeth Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd a fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd.

58 Yn ystod 2021, mae'r Tîm Risg a Rheoleiddio wedi darparu sesiynau hyfforddi penodol ar gyfer Arweinwyr Risg y Bwrdd Clinigol a'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol, yn ogystal â sesiynau hyfforddi rhithwir ar-lein wythnosol ar gyfer holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae'r sesiynau hyn wedi bod o gymorth wrth ymgorffori dull cyson o nodi, asesu ac ymateb i risgiau ar draws Byrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

59 Adolygwyd trefniadau rheoli risgiau y Bwrdd Iechyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mawrth 2021, a arweiniodd at sgôr sicrwydd 'rhesymol'.

## Sicrwydd ansawdd a diogelwch[11]

60 Canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi sicrwydd ar faterion ansawdd a diogelwch wedi gwella, a bod gwelliannau ychwanegol wedi eu cynllunio yn sgil mabwysiadu Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad newydd.**

61 Adrodd i'r Bwrdd ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau o safon a sicrhau bod diogelwch cleifion wedi gwella. Mae'r Adroddiad Diogelwch, Ansawdd a Phrofiad Cleifion yn rhoi trosolwg o berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag ystod o ddangosyddion ansawdd a diogelwch sy'n cael eu hadolygu a'u harchwilio'n rheolaidd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraff 32**, mae lle i alinio'n well y dangosyddion â'r pedwar niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19, yn ogystal â rhoi sicrwydd cryfach i'r Bwrdd ar y camau a gymerir i gynnal neu wella perfformiad. Darperir gwybodaeth am achosion o COVID-19, COVID-19 a gafwyd mewn ysbytai, a phryderon sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn yr Adroddiad Diweddaru ar y

[11] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig yn 2021 gan ein bod yn cynnal adolygiad ar wahân o'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd,. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn 2022.

Coronafeirws. Mae'r Bwrdd hefyd yn clywed straeon gan gleifion yn rheolaidd, sy'n rhoi dirnadaeth werthfawr o brofiadau cleifion o ofal gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig.

62 Ym mis Medi 2021, mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad newydd yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae'r fframwaith newydd yn nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gyda'r nod o symud i ffwrdd o ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod 'cyn lleied o bethau â phosibl yn mynd o chwith' i un sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod 'cymaint o bethau â phosibl yn mynd yn iawn'. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cymeradwyo strwythur llywodraethu ansawdd newydd, ac mae nifer o grwpiau newydd yn cael eu sefydlu i gryfhau'r pwyslais ar effeithiolrwydd clinigol, diogelwch clinigol a gwersi sefydliadol. Er y gallai'r fframwaith a'r strwythur newydd gymryd amser i'w hymgorffori, dylent helpu i sicrhau bod mwy o bwyslais ar feysydd ansawdd allweddol, lleihau llwyth gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd.

63 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddiogelwch a llesiant staff, a nodir 'gofalu'n dda am ein staff' yn un o'i flaenoriaethau yn y Cynllun Blynyddol. Mae'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar fesurau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau diogelwch a llesiant y staff wedi gwella, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn yr Adroddiadau Diweddaru ar y Coronafeirws. Hefyd, roedd Adroddiad y Cadeirydd ym mis Mai 2021 wedi ei neilltuo i ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd ar lesiant y staff. Ailddechreuodd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar ddangosyddion perfformiad allweddol y gweithlu ym mis Medi 2020, yn dilyn saib byr yn ystod ton gyntaf y pandemig. Cyfyngedig fu'r adroddiadau i'r Bwrdd ar berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r dangosyddion hyn yn hanesyddol. Fodd bynnag, dylai cynnwys cyfres lefel uchel o ddangosyddion yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig arwain at fwy o oruchwyliaeth a gwaith craffu ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ar lefel y Bwrdd.

## Olrhain cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio ac adolygu

64 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith ar gyfer olrhain a gweithredu argymhellion archwilio ac adolygu.**

65 Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'n rheolaidd gyda'r Arweinwyr Gweithredol perthnasol yr holl argymhellion sy'n weddill, ac adroddir y canlyniadau i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r tracwyr manwl ar gael i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd er mwyn sicrhau tryloywder a darparu cyfleoedd i gynnal gwaith craffu a dadansoddi manwl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Iechyd yn dymuno ystyried adolygu'r ffordd y cyflwynir y tracwyr manwl i gefnogi rhagor o bwyslais ar feysydd o risg neu bryder uwch, er enghraifft, drwy grwpio'r argymhellion yn nhrefn blaenoriaeth yn hytrach nag yn ôl blwyddyn.

66 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r argymhellion sy'n weddill er gwaethaf yr heriau a'r pwysau y mae wedi eu hwynebu

yn ystod y pandemig. Ym mis Tachwedd 2021, roedd 86 o argymhellion Archwilio Mewnol yn weddill ac 16 o argymhellion Archwilio Cymru, o'u cymharu â 226 a 31 yn y drefn honno ym mis Mehefin 2020.

67 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud gwaith ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddilysu'r sefyllfa a nodwyd ar gyfer sampl o argymhellion sydd yn y traciwr. Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu cadarnhau'r sefyllfa a gofnodwyd ar gyfer mwyafrif yr argymhellion yn y sampl, felly roedd yn gallu rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ynghylch cywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Arweinwyr Gweithredol sydd yn y traciwr. Cytunwyd ers hynny y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gyda'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol, yn mireinio'r broses hon er mwyn darparu sicrwydd parhaus i'r Pwyllgor ynghylch y traciwr argymhellon.

68 Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn cyflwyno adroddiad olrhain deddfwriaethol a rheoleiddiol i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, sy'n rhoi trosolwg da o gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu argymhellion a wneir gan gyrff arolygu a rheoleiddio, megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Adolygwyd y trefniadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2021, a arweiniodd at sgôr sicrwydd 'rhesymol'. Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol wedi gwella cynnwys yr adroddiad yn ddiweddar er mwyn darparu sicrwydd mwy cadarn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, yn ogystal â darparu sylwadau ar reolaeth y Bwrdd Iechyd o Gylchlythyrau Iechyd Cymru ac Atebion Diogelwch Cleifion: Rhybuddion a Hysbysiadau.

# Rheoli adnoddau ariannol

69 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.

70 Canfuom fod **goruchwyliaeth gadarn o gyllid y Bwrdd Iechyd a gefnogir gan adroddiadau o ansawdd da, ond bod gwendidau mewn rhai rheolaethau ariannol. Mae'r pandemig yn parhau i beri risg i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

71 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi tanwario o'i gymharu â'i ddyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf ar gyfer 2020–21, fel y gwnaeth yn 2019–20. Fodd bynnag, o ran gwariant refeniw, methodd y Bwrdd Iechyd â bodloni ei ddyletswydd i gadw ei wariant o fewn ei ddyraniad dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae'r pandemig wedi amharu'n ddifrifol ar y gwaith o gyflawni arbedion cost, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella hyn yn ystod 2021–22.**

72 Yn ystod y flwyddyn, cafodd rheoli pwysau COVID-19 effaith fawr ar wariant y Bwrdd Iechyd; o ganlyniad i COVID-19, cyfanswm gwariant ychwanegol oedd £179.205 miliwn. Rhan sylweddol o'r gost hon oedd sefydlu ac ehangu Ysbyty Maes Calon y Ddraig yn Stadiwm Principality. Ariannodd Llywodraeth Cymru fwyafrif y gwariant COVID-19, a byddai'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w ddyraniadau adnoddau hebddi.

73 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu o fewn ei ddyraniad adnoddau cyfalaf o ran refeniw, ni fodlonodd y ddyletswydd o beidio â mynd y tu hwnt i'w ddyraniad dros y cyfnod treigl o dair blynedd hyd 31 Mawrth 2021. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd wargedion bach o £58,000 a £90,000 yn 2019–20 a 2020–21 yn y drefn honno, ond ar gyfer 2018–19, adroddodd y Bwrdd Iechyd orwariant o £9.87 miliwn, sy'n golygu, ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, fod gan y Bwrdd Iechyd orwariant o £9.72 miliwn o'i ddyraniad adnoddau o £3.167 biliwn.

74 O ran gwariant cyfalaf, cadwodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer 2020–21, gyda gwarged bach o £104,000 o'i chymharu â chyllideb o £95.44 miliwn. Am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, tanwariodd y Bwrdd Iechyd ei ddyraniad adnoddau cyfalaf gan £267,000, ac felly bodlonodd y ddyletswydd ariannol mewn cysylltiad â chyfalaf.

75 Amharodd y pandemig yn ddifrifol ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei gynllun gwella costau 2020–21, yn enwedig nifer o gynlluniau mawr a oedd yn canolbwyntio ar leihau'r capasiti gwelyau, gwella'r llif cleifion, ac effeithlonrwydd a moderneiddio'r gweithlu. Targed arbedion y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020–21 oedd £29 miliwn. Ym mis 12, dim ond £8.66 miliwn yr oedd wedi ei nodi mewn cynilion, gan adael y £20.34 miliwn sy'n weddill heb ei nodi. O ganlyniad i hynny, roedd cynllun ariannol drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021–22 yn cynnwys diffyg arfaethedig o £21.3 miliwn. Fodd bynnag, oherwydd bod y diffyg wedi ei achosi gan bwysau COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn ei gyllido anrheolaidd, sy'n golygu bod cynllun ariannol 2021–22 yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r gyllideb.

76 Ym mis 7 2021–22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi £15.2 miliwn o arbedion o'u cymharu â'i darged o £16 miliwn (1.5% o arbedion rheolaidd a 0.5% o arbedion anrheolaidd). Er bod hyn yn gadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gynyddu lefelau ei arbedion rheolaidd a oedd £4.3 miliwn yn brin o'r targed arbedion rheolaidd o £12 miliwn ym mis 7.

77 O ran y sefyllfa ariannol gyffredinol, ym mis 7 2021–22, mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd tanwariant bach o £270,000 ac mae ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o fantoli'r gyllideb yn seiliedig ar y dybiaeth barhaus y bydd Llywodraeth Cymru'n talu'r costau o ymateb i COVID-19 a'r costau adfer ar ôl COVID-19.

**Arddangosyn 5: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Asesiad Strwythuredig 2017 Argymhelliad 1**<br>Ar gyfer 2018–19, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth megis data meincnodi i nodi targedau ymestyn fesul achos mewn meysydd y gellid gwneud mwy o arbedion ynddynt. | **Cwblhawyd**<br><br>Yn 2019–20, nododd y Bwrdd Iechyd nifer o gyfleoedd trawsbynciol gwerth uchel ac roedd y rhain wedi eu cynnwys yn ei Raglen Gwella Costau. Roedd y rhain yn cyfrif am oddeutu 40% o'r cynllun arbedion ac yn cynnwys mentrau ar draws y Bwrdd Iechyd megis adolygu strwythurau rheoli, lleihau gwelyau, a gwariant dewisol. Nodwyd arbedion fesul achos, ac felly cymhwyswyd y costau a dynnwyd allan yn wahanredol ar draws y Bwrdd Iechyd ac roeddent yn adlewyrchu ble y gellid gwneud arbedion. |

## Rheolaethau ariannol

78 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu yn unol â mwyafrif ei reolaethau ariannol presennol, fod achosion o dorri rheolau caffael gwariant cyfalaf a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi amlygu gwendidau mewn rhai rheolaethau ariannol.**

79 Nododd ein hasesiad strwythuredig yn 2020 fod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn ei reolaethau ariannol presennol ac yn rhoi dulliau ar waith i olrhain gwariant COVID-19 yn glir. Mae gwariant y Bwrdd Iechyd ar COVID-19 yn parhau i gael ei olrhain yn glir ac mae'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant a ragwelir yn cael eu mynegi'n dda yn yr adroddiadau cyllid a dderbynnir gan y Pwyllgor Cyllid.

80 Yn ystod y pandemig, ni newidiodd y Bwrdd Iechyd ei reolaethau ariannol, ac roedd y rhai a nodwyd yng Nghynllun Dirprwyo, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn berthnasol. Yn 2021, diweddarwyd y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i adlewyrchu Rheolau Sefydlog Enghreifftiol GIG Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad yn nodi'r newidiadau ym mis Mai 2021.

81 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cael adroddiadau sicrwydd ar reolaethau ariannol yn rheolaidd – mae'n ystyried colledion a thaliadau arbennig yn

gyhoeddus bob chwe mis[12], ac mae'r Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau gwrth-dwyll a chydymffurfedd caffael ym mwyafrif y sesiynau preifat. Er mwyn gwella tryloywder, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod papurau gwrth-dwyll a chaffael yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn gyhoeddus, gan gadw materion sensitif yn unig ar gyfer cyfarfodydd preifat (gweler **Argymhelliad 1g**).

82 Ym mis Ebrill 2021, adolygodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rai o systemau ariannol craidd y Bwrdd Iechyd (y gofrestr asedau a systemau rheoli arian parod), gan arwain at sgôr sicrwydd 'rhesymol'.

83 Ym mis Awst 2021, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ni a Phrif Weithredwr GIG Cymru ei fod wedi nodi achosion o dorri rheolau caffael gwariant cyfalaf mewn cysylltiad â gwaith dan gontract yn Ysbyty Rookwood. Dechreuodd y Bwrdd Iechyd adolygiad mewnol o'r trefniadau caffael a llywodraethu ar gyfer ei gynlluniau cyfalaf a'i wariant er mwyn deall graddau y tor-reolau hyn yn well. Adolygodd y Bwrdd Iechyd sampl o wyth o'r cyfanswm o 69 o gontractau gwerth dros £500,000 a roddwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac y cymhwyswyd trothwyon caffael ar eu cyfer.

84 Daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad bod y tor-reolau wedi eu hachosi gan arferion caffael gwael a rheolaethau mewnol gwan. Daeth i'r casgliad hefyd nad oedd unrhyw arwydd o weithgarwch twyllodrus, nad oedd niwed i'r cyhoedd wrth gyflawni'r cynlluniau hyn, a risg isel sy'n weddill i'r Bwrdd Iechyd ar y cynlluniau hyn.

85 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi ystyried y materion hyn yn fanwl, er mai mewn sesiynau preifat oedd hynny, wrth i'r adolygiad fynd rhagddo. Ym mis Tachwedd 2021, adroddwyd canfyddiadau terfynol yr adolygiad i'r Bwrdd yn gyhoeddus a chymeradwywyd cynllun gweithredu er mwyn cryfhau rheolaethau a threfniadau llywodraethu mewnol y Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad â chynlluniau cyfalaf a gwariant.

[12] Cyflwynwyd adroddiad colledion a thaliadau arbennig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mehefin 2021.

**Arddangosyn 6: y cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Strwythuredig 2018 Argymhelliad 3**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu'r cyfrifoldeb dirprwyedig dros gyfrifo lefelau staff nyrsio ar gyfer wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt dynodedig; ac<br>b. adolygu a diweddaru'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gan sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol. | **Cwblhawyd**<br>Cymeradwywyd y Cynllun Dirprwyo wedi'i diweddaru gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021.<br>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog yn flynyddol.<br>Cymeradwywyd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u diweddaru gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2021 am y tro cyntaf ers i'r argymhelliad hwn gael ei wneud oherwydd yr oedi hir wrth aros am gyhoeddiad fersiwn Enghreifftiol Cymru Gyfan. |
| **Asesiad Strwythuredig 2018 Argymhelliad 6**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl ganlyniadau a argymhellir o ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019 yn cael eu hadolygu ac yr ymchwilir iddynt mewn modd amserol yn ôl yr angen. | **Cwblhawyd**<br>Rhyddhawyd canlyniadau diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2021. Mae pob un o'r rhai risg uchel wedi eu hadolygu ac ni nodwyd twyll. |

## Monitro ac adrodd

86 Canfuom **y creffir yn gadarn ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac fe'i cefnogir gan adroddiadau ariannol o ansawdd da, ond nid yw papurau'r Pwyllgor Cyllid yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol.**

87 Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn destun goruchwyliaeth gadarn a chreffir arni ar lefel Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn parhau i gwrdd yn fisol, ac mae'r Bwrdd yn cael cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adroddiad y Cadeirydd, sy'n amlygu materion allweddol a phwyntiau trafod yn glir. Er bod aelodau'r Pwyllgor yn cael papurau'n brydlon, ni chânt eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd ar yr un pryd (gweler **paragraff 15**) sydd felly'n cyfyngu ar y tryloywder cyhoeddus.

88 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cael amrywiaeth o adroddiadau o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiad perfformiad ariannol misol, y gofrestr risgiau ariannol, a chopi o ffurflenni monitro misol y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru[13]. Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, canfuom fod adrodd ar y sefyllfa ariannol yn gynhwysfawr a bod gwybodaeth yn gyson â'r hyn a roddwyd i Lywodraeth Cymru drwy ffurflenni monitro misol. Mae hyn wedi parhau yn ystod 2021. Ysgrifennir yr adroddiad cyllid misol yn glir ac mae'n cynnwys siartiau a naratif ar y canlynol:

- perfformiad o'i gymharu â mesurau perfformiad ariannol allweddol (yn y dangosfwrdd cyllid);
- y sefyllfa ariannol gronnol;
- incwm, swyddi â chyflog a swyddi heb gyflog;
- gwariant oherwydd COVID-19;
- rhagolwg o gyllid COVID-19;
- tybiaethau ariannol allweddol, gan gynnwys tybiaethau cynllunio cyffredinol ar gyfer 2021–22;
- perfformiad ariannol y byrddau clinigol;
- perfformiad y rhaglenni cynilo;
- cynnydd o'i gymharu â'r terfyn adnoddau cyfalaf.

89 Hefyd, ers mis Ebrill 2021, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnwys pwnc sy'n mynd at wraidd mater ar ei agenda bob yn ail mis. Mae'r adroddiadau sy'n mynd at wraidd mater yn offeryn cadarnhaol a ddefnyddir i ddatblygu dealltwriaeth aelodau o'r Pwyllgor am bynciau ariannol amrywiol, gan ddarparu sicrwydd, a chryfhau'r gwaith craffu. Hyd yma, mae pynciau sy'n mynd at wraidd mater wedi cynnwys dyraniadau adnoddau, y rhaglen gwella costau, a chomisiynu a chontractio.

[13] Mae holl gyrff y GIG yn cyflwyno Ffurflen Monitro Fisol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r perfformiad ariannol o'i gymharu â'u cynlluniau.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 7: ymateb y rheolwyr**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ers ein hadroddiad asesiad strwythuredig yn 2020. Fodd bynnag, mae lle i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r tryloywder cyhoeddus ymhellach drwy: | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | a. sicrhau bod holl recordiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol ar ôl pob cyfarfod, a sicrhau bod dolenni i gyfarfodydd blaenorol yn parhau i fod yn weithredol; | Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol newydd brynu meddalwedd i alluogi'r tîm i lanlwytho recordiadau cyfarfodydd y Bwrdd mewn fformat addas ac er mwyn gallu cyhoeddi'r un peth o fewn 2 i 3 diwrnod i gyfarfod perthnasol y Bwrdd. Dylid cyhoeddi recordiadau cyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021 cyn gynted ag y bydd y feddalwedd newydd wedi ei gosod (ym mis Ionawr 2022). Y bwriad yw sicrhau bod pob recordiad ar gael ar y wefan am gyfnod o 12 mis. Ar ôl hynny, byddai copïau o'r recordiadau ar gael ar gais. | Diwedd Ionawr 2022 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| | b. sicrhau bod recordiadau o gyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgor ar gael ar ei wefan neu y cyhoeddir cofnodion nas cadarnhawyd o gyfarfodydd y Pwyllgor cyn gynted â phosibl wedi hynny; | Ym mis Rhagfyr 2021, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi dechrau recordio cyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgor. O'r Flwyddyn Newydd ymlaen, bydd y recordiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Hefyd, ein bwriad yw ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgor yn fyw o'r Flwyddyn Newydd. | Diwedd Ionawr 2022 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | c. Ianlwytho holl bapurau Pwyllgor i wefan y Bwrdd Iechyd yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt; | Mae hyn wedi ei gwblhau bellach ac mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi eu diwygio i sicrhau, wrth symud ymlaen, fod holl bapurau perthnasol y Pwyllgor a dderbynnir gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn yn unol â'r amserlenni y cytunir arnynt (h.y. 7 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor). | Diwedd Rhagfyr 2021 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| | ch. diweddaru manylion aelodaeth y Pwyllgorau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn gynted ag y caiff newidiadau eu cymeradwyo; | Mae hyn wedi ei gwblhau bellach ac mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi eu diwygio i sicrhau bod manylion Aelodaeth yn cael eu diweddaru, yn barhaus, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. | Diwedd Rhagfyr 2021 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| | d. rhestru'n barhaus y materion sydd i'w trafod yn breifat gan Bwyllgorau ar agenda eu cyfarfodydd cyhoeddus; | Wedi ei nodi. Bydd hyn yn cael ei weithredu o fis Ionawr 2022. | Diwedd Ionawr 2022 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | dd. cyfeirio'r cyhoedd i bapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a recordiadau o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn barhaus drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd; a | Wedi ei nodi. Bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith fel y gellir gweithredu hyn o fis Ionawr 2022. | Diwedd Ionawr 2022 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| | e. sicrhau bod papurau gwrth-dwyll a chaffael yn cael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gan gadw materion sensitif yn unig ar gyfer cyfarfodydd preifat. | Mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith fel y gellir gweithredu'r argymhelliad hwn o fis Ebrill 2022. | Diwedd Ebrill 2022 | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Mae dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad cynlluniau yn llai cadarn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau monitro ac adrodd ar gyflawniad cyffredinol ei Gynllun Blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol drwy: | | | |
| | a. sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/ cyflawniadau allweddol, amserlenni a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol; | Bwriedir i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 22/23 fod â chamau gweithredu, amserlenni a chyflawniadau clir y gellir eu holrhain. Mae hyn eisoes wedi ei hen sefydlu ar gyfer y Rhaglen Adfer a'r Rhaglenni Strategol felly byddwn yn sicrhau ei fod yn cwmpasu'r meysydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | Diwedd Ebrill 2022 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | b. darparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar y cynnydd o'i gymharu â chyflawni'r cynlluniau hyn fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn. | Byddwn yn edrych ar y ffordd orau o adrodd ar y cyflawniadau allweddol a nodir yn y Cynllun Blynyddol/Cynllun Tymor Canolig Integredig er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu craffu a cheisio sicrwydd. Byddwn yn gwneud hyn mewn ffordd sydd â'r nod o leihau unrhyw ddyblygu â'r Adroddiad Perfformiad a ddarperir i'r Bwrdd yn rheolaidd gymaint â phosibl. | Diwedd Ebrill 2022 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.